**Atodiad 3**

<u>Newidiadau a wnaed i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Caerdydd yn dilyn ymgynghoriad</u>

Mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r WESP drafft a gymeradwywyd yn flaenorol o ganlyniad i'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod:

- Mae niferoedd derbyn ar gyfer pob blwyddyn wedi'u hychwanegu i ddangos twf yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- Mae cyfeiriad at estyniad dros dro i PAN Ysgol y Wern wedi'i ychwanegu i wneud pethau'n gliriach.
- Mae paragraff am gyllid buddsoddi cyfalaf Band B wedi'i ychwanegu i ddangos cylch buddsoddi cyfalaf yr ysgol.
- Ychwanegwyd Datganiad Cenhadaeth i'r strategaeth i nodi dyhead y Cyngor, a newidiwyd y Weledigaeth i atgyfnerthu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 1m o siaradwyr erbyn 2050.
- Ychwanegwyd cyfeiriadau at ofal plant a gofal gwyliau i'r adran Gwerthoedd.
- Ychwanegwyd cyfeiriadau ac ystadegau i'r WESP o ran cynnydd Caerdydd yn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru, wedi'u halinio â chynnwys strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.
- Mae amcanestyniadau 4-18 mlynedd wedi'u hestyn i 2021/22 i alinio ag amserlenni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.
- Ychwanegwyd graff i ddangos nifer y plant sy'n mynd i addysg Gymraeg i adlewyrchu'r twf yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- Diweddarwyd darpariaeth feithrin newydd yn Ysgol Glan Ceubal.
- Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Fforwm Addysg Gymraeg.
- Diweddarwyd yr adran Trafnidiaeth Dysgwyr.
- Ychwanegwyd y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dueddiadau cyfraddau trosglwyddo rhwng:<br>dechrau'r Cyfnod Sylfaen (Derbyn) a dechrau CA2 (blwyddyn 3),<br>dechrau CA3 (blwyddyn 7) a dechrau CA4 (blwyddyn 10) a<br>diwedd CA3 (blwyddyn 9) a diwedd CA4 (blwyddyn 11).
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo cyfartalog ledled y ddinas i adlewyrchu dyheadau.
- Ychwanegwyd ffigurau cyrhaeddiad Cymru gyfan ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf i'r data yng Nghanlyniad 5 i ddangos sefyllfa Caerdydd yn erbyn y sefyllfa genedlaethol.
- Mae'r targed cwrs byr Cymraeg ail iaith wedi'i ddileu oherwydd newidiadau i'r cwricwlwm.
- Geiriad wedi'i ychwanegu i egluro'r newidiadau Cymraeg ail iaith ynghyd â nifer yr ymgeiswyr am gymwysterau Cymraeg ail iaith.
- Targed Safon Uwch is, o 6% i 5.5%.
- Ychwanegwyd uchelgais y Cyngor i gyrraedd lefelau uwch ym mhob cyfnod allweddol mewn Cymraeg iaith gyntaf.
- Nodwyd capasiti dros ben ledled y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chapasiti dros ben mewn Dosbarthiadau Derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Eglurwyd capasiti ychwanegol darpariaeth ADY drwy dorri niferoedd i lawr yn y tabl i ddarpariaethau penodol.
- Newidiwyd darpariaeth ASA ychwanegol i ddarpariaeth AYECh.
- Diweddarwyd Canlyniad saith – Cynllunio'r Gweithlu a DPP
- Diwygiwyd y casgliad i alinio'n agosach ag uchelgeisiau Caerdydd 2020.
- Ychwanegwyd cyfraddau trosglwyddo cenedlaethol ar gyfer y Cylchoedd Meithrin.
- Mae cyfanswm capasiti pob ysgol wedi'i ychwanegu at Dabl 15.
- Ychwanegwyd mesuriad ychwanegol i Ganlyniad 1 i fonitro nifer y plant sy'n mynd i addysg Gymraeg bob blwyddyn.